

**GORCHYMYN TRAFFORDD YR M4  
(CYFFORDD 32 (CORYTON) I GYFFORDD 33  
(CAPEL LLANILLTERN), CAERDYDD)  
(GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU  
TRAFFIG DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar draffordd yr M4, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 32 (Coryton) a Chyffordd 33 (Capel Llanilltern), Caerdydd.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

- i. Cau'r gerbytffordd tua'r dwyrain neu tua'r gorllewin a gwahardd goddiwedd yd ar y darnau o draffordd yr M4 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Bydd gwrthlif yn weithredol yn lôn allanol pa gerbytffordd bynnag a fydd yn aros ar agor i draffig.

Bydd y gerbytffordd tua'r gorllewin ar gau o 20:00 o'r gloch ar 26 Medi 2021 hyd 06:00 o'r gloch ar 12 Hydref 2021. Bydd y gerbytffordd tua'r dwyrain ar gau o 20:00 o'r gloch ar 12 Hydref 2021 hyd 06:00 o'r gloch ar 29 Hydref 2021.

- ii. Gosod terfyn cyflymder 30 mya, 40 mya neu 50 mya ar y darnau o draffordd yr M4 a bennir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Gellir defnyddio unrhyw un neu bob un o'r terfynau cyflymder hyn rhwng 26 Medi a 29 Hydref 2021. Dim ond y terfyn cyflymder 50 mya fydd yn gymwys o 06:00 o'r gloch ar 29 Hydref i 1 Rhagfyr 2021.

- iii. Gwahardd cerbydau sy'n 2.9 metr o led neu'n lletach rhag mynd ar y darnau o draffordd yr M4 a bennir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybr arall yn yr Atodlen honno hefyd.

- iv. Caniatáu dros dro i bob cerbyd ddefnyddio'r llain galed sy'n gyfagos i gerbytffyrd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y darnau o draffordd yr M4 a bennir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn fel lôn arferol i draffig, ac eithrio cerbydau sy'n 2.9 metr o led neu'n lletach.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 26 Medi 2021. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro yn weithredol o 20:00 o'r gloch ar 26 Medi 2021 hyd 06:00 o'r gloch ar 1 Rhagfyr 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

**THE M4 MOTORWAY (JUNCTION 32  
(CORYTON) TO JUNCTION 33 (CAPEL  
LLANILLTERN), CARDIFF) (TEMPORARY  
TRAFFIC PROHIBITIONS & RESTRICTIONS)  
ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the M4 motorway between Junction 32 (Coryton) and Junction 33 (Capel Llanilltern), Cardiff.

The effect of the Order is to temporarily:

- i. Close the eastbound or westbound carriageway and prohibit overtaking on the lengths of the M4 motorway described in Schedule 1 to this Notice. Contraflow will operate in the offside lane of whichever carriageway remains open to traffic.

The westbound carriageway will be closed from 20:00 hours on 26 September to 06:00 hours on 12 October 2021. The eastbound carriageway will be closed from 20:00 hours on 12 October to 06:00 hours on 29 October 2021.

- ii. Impose a 30 mph, 40 mph or 50 mph speed limit on the lengths of the M4 motorway specified in Schedule 2 to this Notice.

Any or all of these speed limits may be applied between 26 September and 29 October 2021. Only the 50 mph speed limit will apply from 06:00 hours on 29 October to 1 December 2021.

- iii. Prohibit vehicles with a width of or exceeding 2.9 metres from proceeding on the lengths of the M4 motorway specified in Schedule 3 to this Notice. The alternative route is also described in that Schedule.

- iv. Temporarily permit all vehicles to use the hard shoulder adjacent to the eastbound and westbound carriageways of the lengths of the M4 motorway described in Schedule 2 to this Notice as a normal running lane, with the exception of vehicles of or greater than 2.9 metres wide.

The Order comes into force on 26 September 2021. The temporary prohibitions and restrictions are expected to operate from 20:00 hours on 26 September 2021 until 06:00 hours on 1 December 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Dim ond yn ystod y cyfnodau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmyntion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M J CLARKE**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**  
**Gwrthlif a dim goddiweddyl**

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o'r man croesi 700 metr i'r gorllewin o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 32 (Coryton) am bellter o tua 2.6 kilometr.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o'r man croesi 2.2 kilometr i'r dwyrain o Gyffordd 33 (Capel Llanilltern) am bellter o tua 2.6 kilometr.

**ATODLEN 2**  
**Terfyn cyflymder 30 mya, 40 mya neu 50 mya dros dro a chaniatáu traffig ar y llain galed**

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o bwynt 500 metr i'r dwyrain o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 32 (Cyfnewidfa Coryton) hyd at bwynt 1.7 kilometr i'r dwyrain o Gyffordd 33 (Capel Llanilltern).

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 33 (Capel Llanilltern) hyd at bwynt 200 metr i'r gorllewin o drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 32 (Coryton).

Although the temporary prohibitions and restrictions are only expected to operate during the period specified above the Order will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M J CLARKE**  
Transport  
Welsh Government

**SCHEDULE 1**  
**Contraflow and no overtaking**

The length of the westbound carriageway of the motorway that extends from the crossover point 700 metres west of the westbound exit slip road at Junction 32 (Coryton) for a distance of approximately 2.6 kilometres.

The length of the eastbound carriageway of the motorway that extends from the crossover point 2.2 kilometres east of Junction 33 (Capel Llanilltern) for a distance of approximately 2.6 kilometres.

**SCHEDULE 2**  
**Temporary 30 mph, 40 mph or 50 mph speed limit and trafficking of the hard shoulder**

The length of the westbound carriageway of the motorway that extends from a point 500 metres east of westbound exit slip road at Junction 32 (Coryton Interchange) to a point 1.7 kilometres east of Junction 33 (Capel Llanilltern).

The length of the eastbound carriageway of the motorway that extends from the nosing of the eastbound entry slip road at Junction 33 (Capel Llanilltern) to a point 200 metres west of the nosing of the eastbound entry slip road at Junction 32 (Coryton).

## **ATODLEN 3**

### **Gwahardd cerbydau llydan dros dro**

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 32 (Coryton) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 33 (Capel Llanilltern).

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 33 (Capel Llanilltern) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 32 (Coryton).

#### **Y llwybr arall**

Dylai cerbydau llydan sy'n teithio tua'r gorllewin ymadael â'r draffordd wrth Gyffordd 29 (Llaneirwg) a dilyn yr A48(M), yr A48 Eastern Avenue, Western Avenue a Heol y Bont-faen tua'r gorllewin i gylchfan Croes Cwrlwys yna mynd ar yr A4232 tua'r gogledd i ailymuno â'r M4 wrth Gyffordd 33 (Capel Llanilltern): i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain o Gyffordd 33.

Bydd unrhyw gerbydau llydan sy'n ceisio ymuno â'r M4 tua'r gorllewin wrth Gyffordd 32 yn cael eu dargyfeirio i Gyffordd 30 i ymuno â'r llwybr dargyfeirio uchod o'r A48 Eastern Avenue drwy'r A4232 Ffordd Gyswllt Pentwyn.

## **SCHEDULE 3**

### **Temporary prohibition of wide vehicles**

The length of the westbound carriageway of the motorway that extends from the nosing of the westbound exit slip road at Junction 32 (Coryton) to the nosing of the westbound entry slip road at Junction 33 (Capel Llanilltern).

The length of the eastbound carriageway of the motorway that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 33 (Capel Llanilltern) to the nosing of the eastbound entry slip road at Junction 32 (Coryton).

#### **Alternative route**

Westbound wide vehicles should leave the motorway at Junction 29 (St. Mellons) and follow the westbound A48(M), A48 Eastern Avenue, Western Avenue and Cowbridge Road to Culverhouse Cross roundabout then take the northbound A4232 to rejoin the M4 at Junction 33 (Capel Llanilltern): vice versa for eastbound wide vehicles from Junction 33.

Any wide vehicles that try to join the westbound M4 at Junction 32 will be diverted to Junction 30 to join the above diversion route from the A48 Eastern Avenue via the A4232 Pentwyn Link Road.